sportwales
chwaraeoncymru

dogfen
gyfrifon 2009/10

Cynnwys

04_ Manylion y Gwariant fesul Awdurdod Lleol

08_ Cefnogaeth Ddatblygu i Gyrff Rheoli

09_ Creu'r Cysylltiadau

10_ Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru 1 Ebrill 2009 – 31 Mawrth 2010

16_ Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru

22_ Atodiadau

Manylion y Gwariant

fesul Awdurdod Lleol

Y Gist Gymunedol 2009 - 2010

Awdurdod Lleol	Gwariant
Abertawe	66,000
Sir Benfro	53,000
Blaenau Gwent	67,000
Bro Morgannwg	44,000
Caerdydd	61,000
Caerffili	62,000
Castell-nedd Port Talbot	64,000
Casnewydd	56,000
Ceredigion	40,000
Conwy	51,000
Sir Ddinbych	41,000
Sir y Fflint	58,000
Sir Fynwy	35,000
Sir Gaerfyrddin	48,000
Gwynedd	57,000
Merthyr Tudful	30,000
Pen-y-bont ar Ogwr	45,000
Powys	49,000
Rhondda Cynon Taf	73,000
Torfaen	39,000
Wrecsam	49,000
Ynys Môn	40,000
Prif Gyfanswm	**1,128,000**

Campau'r Ddraig 2009-2010

Awdurdod Lleol	Gwariant
Abertawe	81,000
Sir Benfro	56,000
Blaenau Gwent	47,000
Bro Morgannwg	39,000
Caerdydd	74,000
Caerffili	36,000
Castell-nedd Port Talbot	56,000
Casnewydd	55,000
Ceredigion	50,000
Conwy	58,000
Sir Ddinbych	57,000
Sir y Fflint	57,000
Sir Fynwy	56,000
Sir Gaerfyrddin	71,000
Gwynedd	63,000
Merthyr Tudful	31,000
Pen-y-Bont ar Ogwr	44,000
Powys	62,000
Rhondda Cynon Taf	63,000
Torfaen	43,000
Wrecsam	55,000
Ynys Môn	41,000
Prif Gyfanswm	**1,195,000**

Cyfalaf 2009 - 2010

Awdurdod Lleol	Gwariant
Abertawe	59,000
Bro Morgannwg	1,257,000
Caerdydd	30,000
Caerffili	32,000
Caerfyrddin	326,000
Ceredigion	10,000
Castell-nedd Port Talbot	43,000
Sir Fynwy	3,000
Merthyr Tudful	48,000
Rhondda Cynon Taf	20,000
Wrecsam	11,000
Prif Gyfanswm	**1,839,000**

Anabledd 2009-2010

Awdurdod Lleol	Gwariant
FfChAC	580,000
Prif Gyfanswm	**580,000**

Mân-Grantiau 2009 - 2010

Awdurdod Lleol	Gwariant
Abertawe	30,000
Sir Benfro	43,000
Caerdydd	38,000
Caerfyrddin	9,000
Caerffili	2,000
Casnewydd	2,000
Castell-nedd Port Talbot	31,000
Ceredigion	13,000
Conwy	22,000
Sir Ddinbych	39,000
Sir y Fflint	70,000
Sir Fynwy	9,000
Gwynedd	25,000
Merthyr Tudful	7,000
Powys	13,000
Rhondda Cynon Taf	2,000
Torfaen	30,000
Wrecsam	2,000
Ynys Môn	64,000
Cenedlaethol	7,000
Prif Gyfanswm	**458,000**

Cefnogaeth Ddatblygu
i Gyrff Rheoli

Corff Rheoli	2009-10 £
Cymdeithas Bêl Fasged Cymru	10,000
Cyngor Crwydro Ogofâu Cambrian	1,000
Cyngor Gemau'r Gymanwlad	82,000
Bwrdd Criced Cymru	246,000
FfChAC	279,000
Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru	59,000
Pêl Droed yn y Gymuned	736,000
Undeb Golff Cymru	269,000
Cenedlaethol	10,000
Chwaraeon Eira Cymru	21,000
Sboncen Cymru	146,000
Cymdeithas Achub Bywyd Syrff	3,000
Nofio Cymru	302,000
Cymdeithas Tenis Bwrdd Cymru	87,000
Tenis Cymru	181,000
Ffederasiwn Codi Pwysau Cymru	10,000
Cymdeithas Focsio Amatur Cymru	88,000
Cymdeithas Chwaraeon Dawns Amatur Cymru	1,000
Cymdeithas Rwyfo Amatur Cymru	36,000
Cymdeithas Nofio Amatur Cymru	18,000
Cymdeithas Saethyddiaeth Cymru	5,000
Athletau Cymru	295,000
Undeb Badminton Cymru	164,000
Cymdeithas Filiards a Snwcer Cymru	15,000

Corff Rheoli	2009-10 £
Ffederasiwn Bowlio Cymru	121,000
Cymdeithas Ganŵio Cymru	125,000
Cymdeithas Griced Cymru	1,000
Bowlio Lawnt Coron Cymru	70,000
Cymdeithas Gyrlio Cymru	3,000
Undeb Beicio Cymru	202,000
Ffensio Cymru	10,000
Ymddiriedolaeth Bêl Droed Cymru	4,000
Gymnasteg Cymru	219,000
Undeb Hoci Cymru	230,000
Cymdeithas Sglefrio Iâ Cymru	5,000
Cymdeithas Jiwdo Cymru	72,000
Carate Cymru	37,000
Cymdeithas Lacrosse Cymru	18,000
Ffederasiwn Beicio Modur Cymru	5,000
Cymdeithas Bêl Rwyd Cymru	69,000
Cymdeithas Gyfeiriannu Cymru	3,000
Cymdeithas Bŵl Cymru	2,000
Rygbi'r Gynghrair Cymru	8,000
Undeb Rygbi Cymru	35,000
Cymdeithas Chwaraeon Cymru	78,000
Ffederasiwn Saethu Targed Cymru	74,000
Cymdeithas Driathlon Cymru	42,000
Cymdeithas Dynnu Rhaff Cymru	2,000
Cymdeithas Iotio Cymru	128,000
	4,627,000

Creu'r
Cysylltiadau

Roedd Chwaraeon Cymru'n gwbl ymroddedig i gyrraedd ei darged o £600,000 o arbedion effeithlonrwydd erbyn 31ain Mawrth 2010, yn unol â Strategaeth "Creu'r Cysylltiadau" Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Er mwyn sicrhau bod Chwaraeon Cymru'n cyflwyno'r arbedion uchod erbyn 2010, roedd raid sicrhau arbedion o £123,000 yn ystod blwyddyn ariannol 2009/10. Roedd union swm yr arbedion a wnaed yn ystod y flwyddyn yn £183,263, fel a ddangosir isod.

Crynodeb – Adroddiad Mesur Effeithlonrwydd 2009/10

Teitl y Prosiect	**Arbedion**
Cardiau caffael	£78,736
Arbedion recriwtio	£10,350
Arbedion cyflog	£94,177

Yn olaf, mae Chwaraeon Cymru wedi cyrraedd y targed arbedion o £600,000 erbyn 31ain Mawrth 2010, gyda'r arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol yn dod i £615,929.

Cyngor Chwaraeon Cymru
ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru 1 Ebrill 2009 – 31 Mawrth 2010

Datganiad Ariannol Cryno
Mae'r Datganiad Ariannol hwn yn darparu crynodeb o gyfrifon cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010. Nid yw'n cynnwys digon o wybodaeth i'n galluogi i ddeall yn llawn ganlyniadau a chyflwr materion Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Am wybodaeth bellach, dylid edrych yn y cyfrifon blynyddol llawn ac ar adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon hynny. Gellir cael copi o'r cyfrifon wedi'u harchwilio, sy'n cynnwys yr wybodaeth fanwl sy'n ofynnol yn gyfreithiol a than y canllawiau arfer orau, yn rhad ac am ddim gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforedig yng Ngerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW.

Cefndir Statudol
Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru gan Siarter Brenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r nodau o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden gorfforol a'r arfer o gymryd rhan ynddynt ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Fe'i ariennir gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a thrwy incwm a grëir o'i weithgareddau.

Adolygu'r flwyddyn a datblygiadau'r dyfodol
Mae'r cyfrifon yn cofnodi gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 o £28,712,000 (2008/09 - £26,813,000 wedi'i ailddatgan). Roedd y symudiad net ar y gronfa gyffredinol ar gyfer y flwyddyn, wedi'r cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn danwariant o £1,611,000 (2008/09 - £804,000 wedi'i ailddatgan).

Prif amcanion y Cyngor yw ymgymryd â pholisïau a chynlluniau sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad a gwella perfformiad mewn chwaraeon a hamdden gorfforol ac, yn gyffredinol, dosbarthu a hybu gwybodaeth am chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Yn ogystal â'r gwaith a wnaed yn uniongyrchol gan ei staff ei hun yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, darparodd y Cyngor hefyd gyfleusterau drwy gyfrwng Athrofa Chwaraeon Cymru a Chanolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol Plas Menai, a dyfarnodd grantiau i sefydliadau chwaraeon cenedlaethol a lleol.

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y'i diwygiwyd) yn enwebu Cyngor Chwaraeon Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r cyllid a grëir gan y loteri i chwaraeon yng Nghymru. Fis Tachwedd 1994, lansiodd y Cyngor Gronfa Loteri ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Ceir gwybodaeth bellach am weithgareddau'r Cyngor a'r datblygiadau newydd arwyddocaol mewn rhan arall o'r Adroddiad Blynyddol. Gwelir canlyniadau dosbarthu'r Loteri mewn cyfrifon sydd wedi'u paratoi ar wahân ar gyfer y corff hwnnw.

Bwrdd
Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n cynnwys Bwrdd o 10 aelod ar hyn o bryd. Rhestrir enw Prif Weithredwr y Cyngor ac enwau Aelodau'r Cyngor a wasanaethodd drwy gydol y flwyddyn isod.

Yr Athro L McAllister */**
(Penodwyd yn Gadeirydd 01.02.2010)

Mr Phil Carling **
(Ymddeolodd fel Cadeirydd 31.01.2010)

Mr Robert Harris

Mr H Meredydd *

Mrs A Baumgardt

Mr R Palmer *

Mr D L Roberts

Dr W M Leyshon

Mr M Warren */**

Mrs S M Thomas

Mr D R Turner
(Aelod cyfetholedig a ymddeolodd 30.06.2009)*

Dr H Jones (Prif Weithredwr)

* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio

** Aelod o'r Pwyllgor Cyflogaeth

Cyngor Chwaraeon Cymru yw Ymddiriedolai Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Archwilwyr
Roedd adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru ar ddatganiadau ariannol blynyddol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 yn ddiamod.

Adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru i Gyngor Chwaraeon Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno
Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno a geir yn Nogfen Gyfrifon Cyngor Chwaraeon Cymru, sydd wedi'u datgan ar dudalennau 13 a 15.

Cyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr
Cyfrifoldeb y Cyngor a'r Prif Weithredwr yw paratoi'r Ddogfen Gyfrifon. Fy nghyfrifoldeb i yw mynegi fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno â'r datganiadau ariannol statudol a pheth gwybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, yn cynnwys yr adran wedi'i harchwilio o'r adroddiad cyflogaeth. Yr wyf hefyd yn darllen yr wybodaeth arall yn y Ddogfen Gyfrifon ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol â'r datganiadau ariannol cryno.

Sail y Farn
Rwyf wedi gwneud fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 – 'Datganiad yr archwiliwr ar y datganiadau ariannol cryno' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer ei ddefnyddio yn y Deyrnas Gyfunol.

Barn
Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol cryno'n gyson â'r datagniadau ariannol statudol ac â pheth gwybodaeth yn Adroddiad Blynyddol ac adroddiad cyflogaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010, ac rwyf wedi cyflwyno barn ddiamod yn eu cylch.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad yr adroddiad ar y datganiadau ariannol llawn (13 Awst 2010) a dyddiad y datganiad hwn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
Dyddiad: 27 Hydref 2010

Cyfrif gwariant net cryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

	2009/2010 (£000)	Ailddatganwyd 2008/2009 (£000)
Gwariant		
Gwariant Grant	19,814	18,388
Costau Staff	5,695	5,698
Gwariant Arall	4,751	4,552
Dibrisiant: asedau sy'n eiddo	541	650
Cyfanswm y Gwariant	**30,801**	**29,288**
Incwm		
Incwm o Weithgareddau	3,189	3,041
Incwm Arall	32	298
Cyfanswm yr Incwm	**3,221**	**3,339**
Gwariant Net	**(27,580)**	**(25,949)**
Cost Ffïoedd Cyfalaf	(389)	(518)
Costau Cyllid Pensiwn	(750)	(370)
Gwarged o Waredu Eiddo, Peiriannau ac Offer	5	-
Llog Derbyniadwy	2	30
	(1,132)	**(858)**
Gwariant Net cyn Trethiant	**(28,712)**	**(26,807)**
Trethiant Taladwy	-	(6)
Gwariant Net wedi Trethiant	**(28,712)**	**(26,813)**
Nodyn		
Tâl yr Uwch-Staff ac Aelodau'r Cyngor (£000)	595	597
Nodyn		
Neilltuir cyfran o gostau cyflog yr Uwch-Staff i'r loteri.		

Datganiad cyfnerthedig cryno o'r sefyllfa ariannol

	31 Mawrth 2010	Ailddatganwyd 31 Mawrth 2009	Ailddatganwyd 1 Ebrill 2008
	(£000)	(£000)	(£000)
Asedau Anghyfredol	18,683	19,591	17,576
Asedau Cyfredol	5,919	6,162	6,005
Cyfanswm yr Asedau	24,602	25,753	23,581
Atebolrwydd Cyfredol	(527)	(1,395)	(1,210)
Asedau Anghyfredol Ac Asedau / Atebolrwydd Net Cyfredol	24,075	24,358	22,371
Atebolrwydd Pensiwn Budd Pendant	(15,170)	(10,950)	6,390
Asedau llai cyfrifoldebau	**8,905**	**13,408**	**15,981**
Ariannwyd Gan			
Cronfeydd Cadw	8,905	13,408	15,981

Datganiad llif arian cyfnerthedig cryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

	2009/2010	Ailddatganwyd 2008/2009
	(£000)	(£000)
Arian Net (All-lif) o Weithgareddau Gweithredu	(28,194)	(25,644)
Adenillion ar Fuddsoddiad a Gwasanaethu Cyllid	2	30
Treth Gorfforaeth a Dalwyd	-	(6)
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol	(1,114)	(1,051)
All-lif Arian Net cyn Cyllido	(29,306)	(26,671)
Cyllido	29,126	26,978
(Gostyngiad) / Cynnydd mewn Arian Parod	(180)	307

Swyddog Cyfrifo: Dr H G Jones
Dyddiad: 25 Hydref 2010

Nodiadau

1. Paratowyd y datganiad ariannol cryno hwn yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, gan roi ystyriaeth i Reoliadau Cwmnïau (Crynodeb o Ddatganiad Ariannol) 2008 (SI 2008 / 374) cyn belled ag y maent yn berthnasol.

2. Gwnaed datganiad llawn ynghylch y Trosglwyddiadau Cysylltiedig yn unol ag IAS 24, a manylir yn eu cylch yn y datganiadau ariannol llawn sydd ar gael ar gais.

Cyngor Chwaraeon Cymru

Cyfrif Dosbarthu'r Loteri

Datganiad Ariannol Cryno

Mae'r Datganiad Ariannol hwn yn darparu crynodeb o'r cyfrifon a baratowyd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 yn unol ag a26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r Datganiadau o Ofynion Ariannol a gyhoeddwyd dan Adran 26(3) o'r Ddeddf. Roedd y Ddeddf yn enwebu Cyngor Chwaraeon Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r arian a geir gan y Loteri i chwaraeon yng Nghymru.

Nid yw'r datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth i'n galluogi i ddeall yn llawn ganlyniadau a chyflwr materion y gronfa Loteri ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Am wybodaeth bellach, dylid edrych yn y cyfrifon blynyddol llawn ac ar adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon hynny. Gellir cael copi o'r cyfrifon wedi'u harchwilio, sydd wedi'u cyflwyno ger bron y Senedd ac sy'n cynnwys yr wybodaeth fanwl sy'n ofynnol yn gyfreithiol a than y canllawiau arfer orau, yn rhad ac am ddim gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforedig, Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW.

Aelodau'r Cyngor Bwrdd

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n cynnwys Bwrdd o 10 aelod ar hyn o bryd. Rhestrir enw Prif Weithredwr y Cyngor ac enwau Aelodau'r Cyngor a wasanaethodd drwy gydol y flwyddyn isod.

Yr Athro L McAllister */**
(Penodwyd yn Gadeirydd 01.02.2010)

Mr Phil Carling **
(Ymddeolodd fel Cadeirydd 31.01.2010)

Mr Robert Harris

Mr H Meredydd *

Mrs A Baumgardt

Mr R Palmer *

Mr D L Roberts

Dr W M Leyshon

Mr M Warren */**

Mrs S M Thomas

Mr D R Turner
(Aelod cyfetholedig a ymddeolodd 30.06.2009)*

Dr H Jones (Prif Weithredwr)

* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio

** Aelod o'r Pwyllgor Cyflogaeth

Cyngor Chwaraeon Cymru yw Ymddiriedolai Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Adolygu'r Flwyddyn a Datblygiadau'r Dyfodol Canlyniadau Ariannol

Roedd y cynnydd mewn cronfeydd, wedi rhoi ystyriaeth i'r costau i gyd yn ystod y flwyddyn ariannol, yn dod i £2,494,000 (2008/09 – gostyngiad o £2,128,000). Trosglwyddwyd y swm yma i'r cronfeydd cadw.

Grantiau Cyfalaf

Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan a gwella perfformiadau mewn chwaraeon a hamdden gorfforol yw prif nod y gronfa yn ei gweithgareddau. Cyflwynodd Cyngor Chwaraeon Cymru ei gynlluniau ar gyfer dosbarthu arian y Loteri i brosiectau cyfalaf fis Medi 1994. Defnyddir proses ymgeisio dau gam ar gyfer pob cais cyfalaf. Mae cam cyntaf y cais yn galluogi i'r ffocws gwreiddiol fod ar y manteision ychwanegol i chwaraeon ac ar yr amcanion, y nodau a'r rheolaeth arfaethedig perthnasol i'r prosiect. Mae'r ymgeiswyr yn ceisio cymeradwyaeth dros dro i'w cynllun cyn buddsoddi fel y bo angen er mwyn cyflwyno'r cais llawn.

Gwnaed grantiau cyfalaf yn dod i gyfanswm o £2,297,000 (2008/09 £2,168,000) yn ystod y flwyddyn. Gostyngodd y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer ymrwymiadau caled (cytundebau wedi'u harwyddo) parthed grantiau cyfalaf £1,672,000 yn ystod 2009/10 (2008/09 – cynnydd o £615,000).

Grantiau Refeniw

Fis Ebrill 1996, diwygiwyd cyfarwyddiadau'r Loteri Genedlaethol i ganiatáu dyfarnu arian refeniw. Roedd y cyfarwyddiadau adolygedig yn dweud yn benodol bod raid i Gyngor Chwaraeon Cymru roi ystyriaeth i:

1) pa mor ddymunol yw datblygu talent a sgiliau, yn arbennig ymhlith pobl ieuainc

2) ariannu cystadlaethau chwaraeon rhyngwladol mawr.

Roedd y taliadau grantiau refeniw a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i £4,966,000 (2008/9 - £5,036,000). Roedd y swm yma'n cynnwys taliadau ar y cynlluniau a ganlyn:

Rhaglen	2009/2010 (£000)	2008/2009 (£000)
Elite Cymru	374	289
Coach Cymru	1,411	1,132
Campau'r Ddraig	1,195	1,116
Chwaraeon Anabledd	580	1,072
Y Gist Gymunedol	1,128	1,184
Talent Cymru	278	243
Cyfanswm	**4,966**	**5,036**

Mae swm y Gist Gymunedol yn cynnwys swm o £58,434 (2008/9 - £58,430) a dalwyd mewn perthynas â chostau gweinyddu'r awdurdodau lleol, sy'n gweinyddu'r cynllun grantiau ar lefel leol.

Aelodau Panelau'r Loteri

Mae Siarter Brenhinol y Cyngor yn ei alluogi i benodi pwyllgorau neu banelau i ymarfer unrhyw rai o'i swyddogaethau. At ddibenion gweinyddu'r Loteri, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi penodi Panel Aelodau. Dirprwywyd awdurdod i'r Panel Aelodau i awdurdodi prosiectau ar ran y Cyngor Chwaraeon oddi mewn i gyfyngiadau ariannol yr awdurdod a ddyfarnwyd.

Rhestrir aelodau'r Panel Aelodau isod:

*Mr R Palmer – Cadeirydd

*Yr Athro L McAllister – Is-Gadeirydd

*Mr D L Roberts

*Dr W M Leyshon

Miss Anne Ellis OBE

*Aelod o Gyngor Chwaraeon Cymru

Datganiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dw'r Senedd ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Archwiliais ddatganiadau ariannol cryno Cyfrif Dosbarthu Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2010 a welir ar dudalennau 19 i 21.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r Ddogfen Cyfrifon.

Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno o fewn y Ddogfen Cyfrifon gyda'r Cyfrifon Dosbarthu Loteri blynyddol llawn, yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Adroddiad Blynyddol, a'u cydymffurfiaeth gyda gofynion perthnasol y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Darllenais hefyd yr wybodaeth arall a gynhwysir yn y Ddogfen Cyfrifon ac ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad os deuaf i wybod am unrhyw gamddatganiad tebygol neu anghysonderau sylweddol gyda'r datganiadau ariannol cryno.

Cynhaliais fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy nhystysgrif ar Gyfrifon Dosbarthu Loteri llawn 2009-10, yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Blynyddol yn disgrifio sail fy marn ar y datganiadau ariannol hynny, yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Adroddiad Blynyddol.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson gyda'r Cyfrifon Dosbarthu Loteri llawn, Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Blynyddol Cyngor Chwaraeon Cymru am y flwyddyn a orffennodd 31 Mawrth 2010 ac yn cydymffurfio gyda gofynion perthnasol y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad y llofnodais fy nhystysgrif ar y Cyfrifon Dosbarthu Loteri blynyddol llawn a dyddiad y datganiad hwn.

Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Dyddiad: 29 Hydref 2010

Datganiad Y Prif Weithredwr

Rhoddodd yr archwiliwr farn ddiamod ar y Cyfrifon Dosbarthu Loteri blynyddol llawn, rhan archwiliadwy yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a chysondeb yr Adroddiad Blynyddol gyda'r datganiadau ariannol blynyddol hynny.

Cyfrif gwariant net cryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

	2009/2010	2008/2009
Incwm Gros	**(£000)**	**(£000)**
Elw o Gronfa Ddosbarthu Genedlaethol y Loteri	11,133	9,402
Incwm Arall	275	484
	11,408	9,886
Gwariant		
Ymrwymiadau grant a wnaed yn ystod y flwyddyn	5,161	9,814
Llai ymrwymiadau a ddaeth i ben neu a ddiddymwyd	(222)	(341)
Costau Staff	1,631	1,682
Cronfa Ddosbarthu Olympaidd y Loteri	1,952	488
Costau Gweithredu Eraill	393	403
	8,915	12,046
Incwm/(Gwariant) net cyn llog a threthiant	2,493	(2,160)
Incwm Buddsoddi		
Llog Derbyniadwy	1	40
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn cyllid cyn trethiant	2,494	(2,120)
Trethiant Taladwy	-	(8)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn cyllid wedi trethiant	2,494	(2,128)
Balans ar 1 Ebrill	2,173	4,301
Balans ar 31 Mawrth	**4,667**	**2,173**
Nodyn 1		
Tâl yr Uwch-Staff ac Aelodau'r Cyngor	595	597
Nodyn 2		
Neilltuir cyfran o gostau cyflog yr Uwch-Reolwyr i'r loteri.		

Datganiad cryno o'r sefyllfa ariannol

	31 Mawrth 2010 (£000)	31 Mawrth 2009 (£000)	1 Ebrill 2008 (£000)
Asedau Anghyfredol	113	39	44
Asedau Cyfredol			
Masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill	193	138	12
Buddsoddiadau – y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	10,421	9,858	9,435
Arian parod a chyfystyr ag arian parod	297	911	1417
Cyfanswm yr Asedau Cyfredol	**10,911**	**10,907**	**10,864**
Cyfanswm yr Asedau	**11,024**	**10,946**	**10,908**
Atebolrwydd Cyfredol			
Darpariaeth ar gyfer Ymrwymiadau Grant Caled	(4,508)	(8,400)	(6165)
Atebolrwydd cyfredol arall	(228)	(281)	(379)
	(4,736)	(8,681)	(6544)
Asedau Anghyfredol a'r Atebolrwydd Cyfredol Net	**6,288**	**2,265**	**4364**
Atebolrwydd Anghyfredol			
Darpariaeth ar gyfer Ymrwymiadau Grant Caled	(1,621)	(53)	(19)
Asedau Llai Atebolrwydd	**4,667**	**2,212**	**4345**
Cronfeydd Cadw:			
Cyfrif Incwm a Gwariant	**4,667**	**2,173**	**4301**
Cronfa Grant y Llywodraeth		**39**	**44**
	4,667	**2212**	**4345**

Crynodeb o'r datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

	2009/2010 (£000)	2008/2009 (£000)
Arian net (all-lif) o weithgareddau gweithredu	(529)	(474)
Gweithgareddau buddsoddi, gweithgareddau cyllido a threthiant	(85)	(32)
(Gostyngiad) mewn arian parod	(614)	(506)

Swyddog Cyfrifo: Dr H G Jones
Dyddiad: 25 Hydref 2010

Nodiadau

1. Paratowyd y datganiad ariannol cryno hwn yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, gan roi ystyriaeth i Reoliadau Cwmnïau (Crynodeb o Ddatganiad Ariannol) 2008 (SI 2008 / 374) cyn belled ag y maent yn berthnasol.

2. Mae'n ofynnol i aelodau'r Panelau a'r staff ddatgan unrhyw wrthdaro posibl rhwng diddordebau. Ceir manylion am yr holl drafodion y mae gan yr aelodau a'r staff gysylltiad â hwy yn y cyfrifon blynyddol llawn ac mae copïau ar gael ar gais.

3. Nid yw'r balans ar 31 Mawrth 2010 yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi'i archwilio, gan nad yw'r archwiliad o'r Gronfa yn gyflawn. Bydd unrhyw addasiad a gyfyd yn sgil yr archwiliad hwnnw'n cael ei adlewyrchu yng nghyfrifon 2010/2011 ac nid oes disgwyl iddynt fod yn sylweddol. Seilir y balans ar ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol fel a nodir yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd).

Atodiad 1–
Cyfarwyddiadau Ariannol

Cyhoeddwyd dan adran 26(3) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998:

1. Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru'n cydymffurfio â'r gofynion yn y Datganiad o Ofynion Ariannol (DOA) sydd ynghlwm fel Atodiad i'r Cyfarwyddiadau wrth gyflawni ei swyddogaeth dan Adran 26 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. Os yw wedi'i ddatgan yn y ddogfen honno, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau caniatâd y Prif Weinidog cyn cyflawni rhai gweithgareddau.

2. Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru'n dyfeisio ac yn cadw at weithdrefn ar gyfer delio â gwrthdaro posibl rhwng diddordebau a all godi wrth i'r corff, neu aelodau unigol o'r corff hwnnw, werthuso ceisiadau. Dylid darparu copi o'r weithdrefn i'r Prif Weinidog. Ar ddechrau bob blwyddyn ariannol, bydd y Cyngor Chwaraeon yn darparu datganiad i'r Prif Weinidog yn cadarnhau ei fod wedi cadw at y weithdrefn yn ystod y flwyddyn ariannol sydd newydd fynd heibio.

3. Daw'r cyfarwyddiadau hyn i rym ar 28 Chwefror 1997. Mae'r cyfarwyddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 6 Chwefror 1995 dan Adran 26(3) o Ddeddf 1993 yn ddi-rym o 28 Chwefror 1997 ymlaen, ond byddant yn parhau'n berthnasol ar gyfer y grantiau a ddyfarnwyd cyn 28 Chwefror 1997.

Atodiad 2 –
Cyfarwyddiadau Polisi

Cyhoeddwyd i Gyngor Chwaraeon Cymru dan Adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998:

Mae'r Prif Weinidog, wrth ymarfer y pwerau a roddwyd iddo dan Adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol Etc. 1998, yn rhoi trwy hyn y cyfarwyddiadau a ganlyn i Gyngor Chwaraeon Cymru:

1. Yn y cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993 fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.

2. Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru'n rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn wrth benderfynu ar yr unigolion y dosberthir arian y Loteri iddynt dan Adran 26(1), a'r amodau cysylltiedig â'r dosbarthu hwnnw:

A yr angen am sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu dan Adran 26(1) ar gyfer prosiectau sy'n hybu lles y cyhoedd neu ddibenion elusennol, ac nid er budd cyhoeddus yn bennaf;

B yr angen am sicrhau ei fod yn ystyried ceisiadau sy'n gysylltiedig â'r amrywiaeth cyflawn o weithgareddau sy'n berthnasol oddi mewn i Adran 22(3)(b) a'r gweithgareddau y mae ganddo bwerau i ddosbarthu arian mewn perthynas â hwy;

i *ei asesiad o anghenion chwaraeon a'i flaenoriaethau am y tro ar gyfer rhoi sylw iddynt;*

ii *yr angen am sicrhau bod pob rhanbarth yng Nghymru'n gallu defnyddio'r cyllid;*

iii *y sgôp ar gyfer lleihau cyni economaidd a chymdeithasol ar yr un pryd â chreu manteision i chwaraeon;*

C yr angen am hybu argaeledd chwaraeon i bobl o bob adran yn y gymdeithas;

Ch yr angen am hybu gwybodaeth am, a diddordeb mewn, chwaraeon ymhlith plant a phobl ieuainc;

D yr angen am weithredu ymhellach o safbwynt nodau datblygiad cynaladwy;

Dd yr angen am i'r arian a ddosberthir dan Adran 26(1) gael ei ddosbarthu i brosiectau sydd ar gyfer diben penodol ac o fewn amser penodedig;

E yr angen:

i *ym mhob achos, am i ymgeiswyr ddangos bod y prosiect yn ymarferol yn ariannol ar gyfer cyfnod y grant;*

ii *os gwneir cais am arian cyfalaf neu gostau sefydlu, am gynllun busnes eglur y tu hwnt i gyfnod y grant, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y costau rhedeg a chynnal a chadw cysylltiedig;*

iii mewn achosion eraill, am ystyried argaeledd tebygol cyllid arall i dalu am unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol wedi cwblhau cyfnod dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac am ddefnyddio cyllid y Loteri i helpu gyda'r cynnydd tuag at ymarferoldeb y tu hwnt i gyfnod y grant, lle bo modd;

F yr angen am fynnu elfen o gyllid partneriaeth a / neu gyfraniadau o fath gwahanol, o ffynonellau eraill, yn unol â gallu rhesymol y gwahanol fathau o geisiadau, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd arbennig, i sicrhau cefnogaeth o'r fath;

Ff y fantais o weithio gyda sefydliadau eraill, yn cynnwys dosbarthwyr eraill, lle mae hwn yn gyfrwng effeithiol ar gyfer cyflwyno elfennau o'i strategaeth;

G yr angen am sicrhau nad yw'n annog ceisiadau penodol;

Ng gwybodaeth sy'n angenrheidiol yn ei farn ef er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch bob cais, yn cynnwys cyngor annibynnol pan fo angen.

Nodyn ar y Cyfarwyddiadau Polisi

Mae Cyfarwyddiadau Polisi A; B; C; Ch; D; Dd; E; F; Ff; G; Ng i gyd yn cael sylw yn y canllawiau ymgeisio, y ffurflenni cais a'r broses asesu, ac maent yn rhan allweddol o'r rhain.

Yn arbennig, mae Ch yn flaenoriaeth sylfaenol sy'n cael sylw ym mhob un o'r rhaglenni a gyllidir gan y Loteri.

3. mae gwaith ar y cyd â chyrff dosbarthu eraill wedi parhau drwy gydol y flwyddyn drwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd gyda chyrff dosbarthu Cymru, Cynghorau Chwaraeon eraill a phartneriaid amrywiol.

4. nid yw wedi annog ceisiadau ac mae ganddo sawl egwyl yn ystod y broses o wneud penderfyniadau i atal y posibilrwydd o ffafrio ffurflen gais a'i bwrw ymlaen. Fodd bynnag, mae wedi datblygu strategaeth i arenwi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi arian y Loteri, er mwyn gwneud y gwahaniaeth gorau posibl i chwaraeon gan ddefnyddio arian y Loteri.

Atodiad 3 – Cydymffurfiaeth

Mae dull y Cyngor o weithredu er mwyn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a amlinellir yn Atodiadau 1 a 2 yn cynnwys:

- cyhoeddi adroddiad a chyfrifon blynyddol sy'n dangos yn eglur y costau gweinyddol y bu'n rhaid i'r Cyngor eu talu wrth ddosbarthu arian y Loteri
- llunio cyfarwyddyd sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar gyfer ymgeiswyr posibl
- dosbarthu amrywiaeth eang o lenyddiaeth i'r rhai gyda diddordeb mewn gwneud cais am grant, yn cynnwys nodiadau cyfarwyddyd, llyfrynnau briffio technegol a ffurflenni cais
- llunio gwybodaeth gyffredinol am ddosbarthiad arian y Loteri drwy gyfrwng datganiadau i'r wasg a chyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid yn y byd datblygu chwaraeon yng Nghymru, yn cynnwys awdurdodau lleol
- cofnodi gwybodaeth am bob cais a dderbynnir
- hyfforddi a briffio staff er mwyn sicrhau dull effeithiol, teg a chyson o weithredu
- datblygu polisïau a gweithdrefnau eglur ar gyfer gwerthuso ceisiadau, yn cynnwys asesu risg
- gorfodi telerau ac amodau priodol mewn perthynas â'r grantiau a gynigir
- ymgynghori'n eang gydag awdurdodau lleol, cyrff rheoli a chynghorau chwaraeon lleol
- gweithredu polisïau a systemau ar gyfer monitro a gwerthuso prosiectau / unigolion / digwyddiadau a gefnogir yn effeithiol
- gweithredu gweithdrefn apelio ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus anfodlon
- trefnu archwiliadau mewnol ac allanol ar y systemau.

Atodiad 4 – Apeliadau

Os yw'r ymgeiswyr am grantiau cyfalaf neu refeniw'n anfodlon gyda'r modd y cafodd eu cais ei ystyried, gallant gyflwyno apêl ffurfiol i Brif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru o fewn tri mis i ddyddiad y llythyr gwrthod gwreiddiol.

Ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau yn ystod 2009/10.